

Cyflwyniad

Yn y traethawd yma byddaf yn dadansoddi ar ddatblygiad cyfannol plentyn gan gynnal arsylwadau, cyfweiliadau lled strwythedig, adborth o ddisgyblion o'r sesiynau a addysgwyd a samplau o waith plentyn a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil. Byddaf yn defnyddio'r data a chasglwyd er mwyn dadansoddi ar gynnydd y plentyn targed ac yn defnyddio ymyrraeth i geisio gwella cynnydd y disgybl. Yn ôl canllawiau BERA (2018) byddaf yn cadw enw'r ysgol, y staff ar ddisgyblion yn gyfrinachol ar bob achlysur a byddaf yn cyfeirio at y plentyn fel Plentyn A trwy gydol y traethawd hwn. Dilynaf gyda gwybodaeth am yr ysgol a'r dosbarth a chenhedlwyd yr ymchwil. Sefydlwyd yr ysgol mewn pentref yn Ne Cymru, sy'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i 474 o blant trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) mae 8.2% o ddisgyblion yr ysgol yn gymwys i dderbyn prydiau am ddim (Pad). Soniwyd gan Department for Education (2018) taw'r canran cyfartaledd cenedlaethol cyfredol yw 13.7% felly mae canran ysgol A thipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cenhedlwyd fy ymchwil yn nosbarth blwyddyn 2, rhwng 6 a 7 oed sydd a 25 o blant, 13 merch a 12 bachgen sydd ag amrywiaeth o allu academaidd. Dewiswyd plentyn sydd â gallu canolig, sydd â photensial i gyrraedd deilliant 5 gyda'r ymyrraeth gywir i'w gefnogi. Soniwyd gan blentyn A'i bod yn mwynhau treulio amser yn yr ardal greadigol yn ystod sesiynau ardaloedd ac yn mwynhau cwblhau tasgau ysgrifenedig oherwydd 'mae llawysgrifen i yn daclus iawn', (Plentyn A).

Casgliadau Data & Materion Moeseg.

Dilynwyd canllawiau BERA (2018) a chanllawiau Data rheoli ymchwil y Drindod Dewi Sant (2018) wrth gynnal yr ymchwil gan dderbyn caniatâd yr athrawes dosbarth, gweler atodiad 1, a chaniatâd rhiant y disgybl, gweler atodiad 2 cyn mynychu'r ymchwil. Rydw i hefyd yn ymwybodol fod angen derbyn caniatâd y disgybl ac yn ymwybodol fod gan y plentyn yr hawl i dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg heb angen rhoi rheswm; ac mae gen i ddyletswydd i dderbyn y penderfyniad yma a'i pharchu. Esboniwyd gan BERA (2018) mae gan yr ymchwilydd gyfrifoldeb i wneud yn siŵr ei bod yn esbonio'r rhesymau am gynnal yr ymchwil i'r plentyn a ddewiswyd ac yn esbonio pam mae angen ei chyfranogiad, beth fydd angen iddynt wneud, beth fyddai'n gwneud gyda'r wybodaeth a chasglwyd a sut byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a chasglwyd. Soniwyd gan y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (dim dyddiad) yn erthygl 8 fod gan yr hawl i bob plentyn cadw ei hunaniaeth

yn gyfrinachol. Er mwyn parchu hawliau'r plentyn, ni fydd yn bosib i unrhyw un caffael a gwybodaeth y plentyn, yr ysgol na'r staff.

Casglwyd y data gan ddefnyddio model 'ASK' Nottingham (2013). Mae'r model wedi'i rhannu mewn i dri rhan. Yr agweddau, y sgiliau a'r wybodaeth. Casglwyd y data gan ddefnyddio, cyfweliad lled strwythedig, arsylwadau a thrafodaethau am yr hyn hoffwyd gwneud yn yr ysgol.

Cyfweliad lled strwythedig.

Soniwyd gan Mukherji a Albon (2015:154) mae cyfweliadau lled strwythedig wedi'i chynhyrchu gyda chymysg o gwestiynau pen agorer a chaeedig. Soniwyd fod cynnal cyfweliad lled strwythedig yn fwy hyblyg yn cymharu â chyfweliad strwythedig. Mae hyn yn galluogi i'r ymchwilydd i addasu'r cwestiynau er mwyn fod yn addas i'r plentyn a holwyd. Er hynny, mae addasu cwestiynau'r cyfweliad yn gallu lleihau'r dibynadwyedd. Fodd bynnag, wrth holi cwestiynau i'r plentyn mae angen sicrhau fod y cwestiynau yn addas ac wedi'i eirio fel bod y plentyn yn deall y cwestiwn er mwyn osgoi colli dilysrwydd atebion y plentyn targed.

Ar y llaw arall, mae cynnal cyfweliad lled strwythedig yn gallu fod yn risg gan nid ydym yn gallu sicrhau gonestrwydd atebion y cyfwelai, hynny yw, mae'n bosib gall y disgybl dweud ateb er mwyn plesio'r cyfwelydd, o ganlyniad i hyn mae'n bosib ni fydd canlyniadau'r cyfweliad lled strwythedig yn ddibynadwy.

Arsylwadau.

Awgrymwyd gan Hobert a Franker (1999: 25) mae arsylwi plentyn targed yn galluogi ymchwilydd i ganolbwyntio ar un plentyn, gan ffocysu ar y gweithgareddau mae'r plentyn yn gwneud am gyfnod o amser. Gan ffocysu ar y symudiadau mae'r plentyn yn gwneud o amgylch y dosbarth mae'n galluogi'r ymchwilydd i ychwanegu gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plentyn yna er mwyn ennyn diddordeb y plentyn er mwyn llwyddo'n effeithiol. Yn wrthwyneb i hyn, mae'n galluogi'r ymchwilydd i dracio'r ardaloedd a ymwelwyd gan y disgybl er mwyn darganfod yr ardaloedd a ymwelwyd y mwyaf a'r lleiaf. Soniwyd gan Hobert a Franker (1999:25) fod angen i'r ymchwilydd crynhoi'r wybodaeth o'r arsylwadau er mwyn i'r iddo fod yn effeithiol ar gyfer yr ymchwil. Os nad yw'r data a chasglwyd wedi crynhoi yn effeithiol mae'n bosib ni fydd y data yn ddibynadwy. Anfantais arall yw'r achos moeseg. Mae'n bosib

fydd y disgybl ddim eisiau cael ei wyllo ac os yw'r plentyn yn penderfynu hyn, ni fydd yn bosib parhau gyda'r arsylwad, gall hyn fod yn effaith negyddol ar yr ymchwil.

Adborth disgyblion.

Soniwyd gan Education Endowment Foundation, (2018) fod adborth yn effeithiol iawn ar gyfer cynnydd disgyblion. Dylid yr adborth yma cael ei rhoi er mwyn gwella addysg disgyblion. Soniwyd fod yr adborth yma yn gallu fod yn adborth am y gweithgaredd, neu adborth ar addysg unigolion sydd fel arfer yr adborth llai effeithiol. Soniwyd gan Education Endowment Foundation, (2018) fod adborth yn gallu ychwanegu hyd at 8 mis o ddatblygiad i addysg plentyn os yw'n cael ei defnyddio'n gywir. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd fod yn bosib i adborth cael effaith negyddol ar addysg plentyn. Er mwyn osgoi hyn, mae'n bwysig fod athrawon, staff cynorthwyo ac oedolion arall sy'n gweithio gyda phlant yn deall yr effeithiau positif a negyddol o adborth. Defnyddiwyd adborth disgybl i athrawes ar gyfer yr ymchwil yma gan drafod gyda'r disgybl am sut oeddent yn teimlo aeth y wers, am ei hoff beth i wneud yn yr ysgol ac am y gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn yr ardaloedd cyfoethogi.

Dadansoddi'r dysgwr.

Mae plentyn Ac yn blentyn hapus sydd yn mwynhau treulio amser yn cymdeithasu gyda'i ffrindiau. Mae'n blentyn cyfeillgar sy'n dod o gartref Cymraeg. Mae safon iaith plentyn Ac yn uchel ac yn llwyddo i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol. Mae ganddi allu canolig ac ar hyn o'r byd ar ddeilliant 4 a gobeithiwyd gydag ymyrraeth bydd yn cyrraedd deilliant 5 erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Dilynwyd canlyniadau a ddarganfuwyd yn ystod arsylwi, y cyfweliad lled strwythedig a samplau o waith a chwblhawyd gan blentyn A.

Datblygiad Mathemategol.

Wrth arsylwi ar blentyn Ac yn ystod cyflwyniadau torfol mae'n blentyn sydd yn mwynhau rhannu syniadau ac atebion gyda gweddill y dosbarth. Mae'n hyderus wrth wneud hyn ac nid yw'n poeni am weithiau cael atebion yn anghywir. Mae'n dangos parodrwydd ymateb ar y mat yn unigol ac fel grŵp. Mae plentyn A yn gweithio grŵp yn uwch wrth gwblhau gweithgareddau mathemateg na weithgareddau ieithyddol. Dilynwyd canlyniadau a darganfyddwyd yn ystod arsylwadau, gweithgareddau a thrafodaethau gyda'r plentyn.

Mae plentyn A yn gallu darllen, ysgrifennu a ddeall rhifau hyd at 100 yn annibynnol gan ysgrifennu rhifau yn wynebu'r ffordd gywir pob tro gan gymryd gofal wrth gwblhau gwaith. Defnyddir hefyd unedau amser safonol i ddarllen yr oriau ar gloc, gweler atodiad 3. Er mwyn cwblhau'r dasg defnyddir plentyn A'r wybodaeth modelwyd gan y gynorthwywraig i ddarllen yr amser yn ymarferol ar gloc analog i wedyn gwblhau tasg gan ddweud yr amser ar gloc analog, gan ddefnyddio geirfa briodol, megis o'r gloch, hanner awr wedi, chwarter i a chwarter wedi, gweler atodiad 4 am y dystiolaeth. Cwblhawyd plentyn A'r dasg yn annibynnol gan fynd ati i gwblhau tasg ymestynnol, gweler atodiad 3, gan dynnu llun yr amser cywir ar y cloc. Fe lwyddodd plentyn A i gwneud hyn yn annibynnol gan gofio'r llaw fach sy'n pwyntio at yr oriau ar law bach sy'n pwyntio at y munudau.

Gwelwyd fod plentyn A yn cael anhawster wrth drosi amser o gloc analog i gloc digidol. Nid oedden yn deall fod rhif chwech ar gloc analog yn cynrychioli 30 munud ar gloc digidol. O ganlyniad i hyn roedd angen llawer o gymorth arno i gwblhau'r dasg. Fe ymarferwyd yn ymarferol ac yna cwblhau tasg gan ddarparu cymorth rwy gydol y dasg.

Cryfder mathemategol arall plentyn A yw dealltwriaeth siapiau 3D. Cwblhawyd plentyn A helfa siapiau 3D o gwmpas yr ysgol. Dangoswyd dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng siapiau 2D a 3D gan ddweud yn ystod y gweithgaredd wrth blentyn arall 'nid sffêr yw hyn, mae'n gylch achos mae'n fflat' Fe gasglwyd y wybodaeth hon gan ddefnyddio tabl a siart rhicbren i gofnodi atebion. Soniwyd yn ystod y gweithgaredd ei bod yn mwynhau'r gweithgaredd yma, o ganlyniad fe nodwyd hyn ar ffurflen BWA fod angen sicrhau fy mod yn cynllunio sesiynau ymarferol er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion yn y dosbarth.

Datblygiad leithyddol.

Yn ystod arsylwi plentyn A yn ystod y dasg, gwelwyd ei bod yn dibynnu ar y cardiau cyfarwyddiadau a defnyddiwyd yn ystod y sesiwn er mwyn ysgogi ysgrifennu brawddegau.

Yn ystod fy wythnos arsylwi ar ddechrau'r profiad addysgu proffesiynol, fe holais i blentyn A am ei hoff bethau i wneud yn yr ysgol a dyma'r atebion a dderbyniwyd;

Athrawes: Beth yw dy hoff beth i wneud yn yr ysgol?

Plentyn A: Fi'n hoffi ysgrifennu achos mae'n fun.

Athrawes: Pa ardal wyt ti'n mwynhau mynd at yn ystod amser ardaloedd?

Plentyn A: Fi'n lico mynd at yr ardal greadigol a chreu pethau neis.

Gan ddywedwyd ei bod yn mwynhau ysgrifennu fe gynlluniwyd tasg ysgrifenedig er mwyn ennyn diddordeb y plentyn. Soniwyd gan Estyn (2017) fod llais disgyblion yn ffynhonnell allweddol ar gyfer arolygwyr yn y maes datblygiad llythrennedd. Cytunwyd gan Department for Education (2010) fod cynnwys disgyblion yn galluogi disgyblion i gymryd perchnogaeth yn eu gwaith. Soniwyd fod hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion i fod yn ymwybodol o'i dysgu a'r amgylchedd a'i hawl i fod yn rhan o gynllunio a datblygu'r amgylchedd dysgu. Mae yna gyfyngiadau o roi hyn mewn i ymarfer a hynny yw, mae angen sicrhau fod pawb yn deall y rhesymau a'r pwysigrwydd o wneud hyn felly mae angen cynnal trafodaethau gyda chydweithwyr a rhieni er mwyn iddynt fod yn llwyddiannus, ac ar rhai adegau mae hyn yn gallu achosi croestyniad. Mae agwedd plentyn A tuag at weithgareddau ieithyddol yn bositif ac mae'n mwynhau cwblhau'r gweithgareddau. Gweler atodiad 6 am enghraifft o waith plentyn A yn ysgrifennu pamffled. Targed plentyn A ym mis Gorffennaf 2018 oedd ymarfer ffurfio pob llythyren ac i ymarfer sillafu geiriau tair llythyren. Erbyn hyn mae plentyn A yn gallu ffurfio llythrennau bach a phriflythrennau sydd fel arfer wedi'i ffurfio'n gywir ac yn defnyddio priflythrennau gyda rhywfaint o gysondeb dangosir y wybodaeth hon mae plentyn A ar ddeilliant 4, ond mae angen cofio nid oes angen defnyddio yng nghanol brawddegau. Defnyddir plentyn A brawddegau a modelwyd gan yr athrawes er mwyn ysgrifennu'r brawddegau ar y pamffled. Dangosir plentyn A y gallu i siarad am yr hyn oedden yn fwriadau ysgrifennu yn ystod y dasg gan ddefnyddio geirfa. Soniwyd gan Lywodraeth Cymru (2017) fod ysgrifennu ar y cyd yn galluogi disgyblion i ddeall bod ysgrifennu yn broses rhyngweithiol, ac yn helpu disgyblion i ddeall fod modelau a modelwyd gan yr oedolyn yn cefnogi'r hyn sydd angen gwneud i lwyddo i ysgrifennu.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd.

Dangoswyd plentyn A yr awydd i lwyddo a diddordeb mawr yn ystod y sesiynau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd. Fe gwblhawyd arbrawf plannu gan ragfynegi ar ganlyniadau'r arbrawf. Llwyddodd i wrando ar syniadau gwyddonol ac ymateb yn addas iddynt gan ddefnyddio geirfa briodol. Dangoswyd bod gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol ganddi o blannu ac roedd yn gallu esbonio'i sylwadau i weddill y grŵp yn fanwl. Fe ysgrifennwyd rhagfynegiad ar ganlyniadau'r arbrawf gan ddefnyddio strwythur brawddeg a modelwyd gan oedolyn gweler

atodiad 7 am enghraifft o hyn. Soniwyd gan Gray a Macblain (2012) os mae athrawon yn scaffaldio'n gywir mae'n gallu cael effaith cadarnhaol ar addysg plant. Er mwyn llwyddo, mae'n hanfodol i'r athrawon fod yn ymwybodol o beth mae'r disgyblion yn gwybod yn barod er mwyn adeiladu ar hyn er mwyn datblygu.

Dangosodd chwilfrydedd wrth weithio mewn grŵp i blannu hadau gyda'r gynorthwywraig er mwyn cefnogi'r arbrawf rhagfynegi. Soniwyd gan Burke (2011) mae gweithio mewn grŵp yn effeithio oherwydd mae gan grŵp mwy o wybodaeth nag unigolyn. Cafodd y disgyblion cyfle i rannu straeon a syniadau am blannu yn ystod y gweithgaredd ac roedd yn braf clywed yr amrywiaeth o straeon am y cyfleodd mai'r disgyblion wedi cael yn plannu gyda'i deuluoedd. Soniwyd gan Burke (2011) fod gwaith grŵp hefyd yn sbarduno creadigrwydd, hynny yw, mae'n galluogi disgyblion i ddatrys problemau yn effeithiol, a dangosir ymchwil fod disgyblion sy'n gweithio mewn grwpiau bach yn fwy tebygol i addysgu mwy am yr hyn a addysgwyd. Ar y llaw arall mae yna anfanteision o waith grŵp yn cynnwys, nid yw rhai disgyblion yn hoffi gwrthdoriad ac i osgoi gwrthdaro gyda'i chyfoedion mae'n bosib bydd unigolyn yn cytuno gyda barnau eraill ac nid yn sefyll am farn ei hun. Gall rhai unigolion dibynnu ar gyfoedion i gwblhau'r tasgau, soniwyd gan Burke (2011) dyma'r anfantais fwyaf cyffredin sydd o effaith i waith grŵp. Er mwyn osgoi hyn, defnyddir ffyn loli i holi cwestiynau i unigolion yn y grŵp ac i sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle i ymateb. Ymatebodd plentyn A yn effeithiol i hyn gan holi yn ystod cyflwyniad dilynol 'wyt ti'n gallu defnyddio'r lolipop sticks eto?'

Datblygiad Lles a cymdeithasol

Soniwyd gan Donaldson (2018) mae'n hanfodol i ddisgyblion i brofi lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol er mwyn llwyddo yn eu haddysg. Mae'r cyfle i iechyd a lles cael ei haddysgu yn draws cwrwclaid yn ysgolion yn helpu disgyblion i afael ar y diliau sydd angen i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol. Llwyddodd plentyn A i ddeall pwysigrwydd bwyta'n iach ar effaith mae'n cael ar iechyd a lles unigolion. Mae plentyn A yn dod a ffrwythau, ac yn yfed llaeth yn ddyddiol. Sylweddolwyd ei bod yn cynnal sgwrs gyda'i ffrindiau wrth wneud hyn ac yn trafod am bethau sydd â diddordeb iddynt. Mae plentyn A pob amser yn dangos chwilfrydedd i gymdeithasu gyda disgyblion arall yn y dosbarth a gyda disgyblion dosbarthiadau arall yn ystod amser egwyl a chwarae. Dangoswyd plentyn A ymwybyddiaeth o deimladau, safbwyntiau a chredoau'r disgyblion eraill. Yn dweud hynny, dangosir plentyn A diffyg dealltwriaeth yn cymryd tro wrth drafod yn ystod trafodaethau grŵp/torfol. Gwelwyd

ei bod yn torri ar draws disgyblion wrth iddynt rannu syniadau, barnau a straeon yn ystod trafodaethau.

Defnyddiwyd system asesu cymheiriaid yn ysgol A, a dangosir plentyn A chwilfrydedd wrth drafod gwaith cyfoedion. Awrgrymwyd gan Black a Wiliam (1998) fod asesu cymheiriaid sy'n yn gallu cael ei gymysgu fel cymharu plant gyda'i gilydd ac o bosib yn creu'r awrgrym fod plant yn cystadlu gyda'i gilydd, yn hytrach na defnyddio fel proses i wella ddatblygiad ei hun. Anghytunwyd gan Weeden et al. (2002) fod asesiad cymheiriaid yn gallu elwa ddatblygiad personol a datblygiad cymdeithasol dysgwyr. Wrth i'r ddau blentyn gweithio gyda'i gilydd wrth fod yn feirniadol, nid oeddent yn sylweddoli'r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod y gweithgareddau yma.

Gwelais newid ym mhersonoliaeth plentyn A yn ystod wythnos mabolgampau. Fe holwyd iddi beth oedd yn bod a dywedwyd nid oedd am gymryd rhan yn y mabolgampau. Nid oedden yn meddwl ei bod yn gallu rhedeg yn gyflym fel ei ffrindiau. Fodd bynnag, ar ôl cael trafodaeth gyda mi, teimlodd plentyn A yn hapus i gymryd rhan mewn tîm gyda'i ffrindiau.

Datblygiad Corfforol.

Mae gan blentyn A agwedd positif iawn tuag at fwyafrif o weithgareddau corfforol, darganfyddir ei bod yn mynychu sesiynau gymnasteg tu allan i'r ysgol ac yn mwynhau rhannu straeon a'i gyrhaeddiad gydag oedolion a disgyblion y dosbarth. Soniwyd uchod bod plentyn A wedi dweud ei bod yn mwynhau cwblhau gweithgareddau ymarferol a chytunwyd gan Nuffield Foundation (2019) fod gweithgareddau ymarferol yn gallu ysgogi disgyblion wrth ysgogi diddordeb a mwynhad. Dadlau gan University of York (2009) fod llawer o ymarferwyr yn credu fod wrth gwblhau gweithgareddau'n ymarferol mae'n ysgogi dysgu disgyblion, ond weithiau nid yw disgyblion yn elwa o weithgareddau ymarferol. Wrth arsylwi plentyn A yn ystod sesiynau addysg gorfforol mae ei dealltwriaeth o bwysigrwydd gwagle wedi datblygu, gan sicrhau bod digon o le ganddi i wneud symudiadau yn ddiogel. Gwelwyd fod plentyn A efo sgiliau cydgysylltu effeithiol yn ystod sesiynau criced a threfnwyd gan yr ysgol. Fe sylwyd fod plentyn A yn gallu dal pêl yn dda ac yn gallu rhedeg mewn llinell syth gydag ymwybyddiaeth o'r disgyblion eraill sydd o amgylch. Dangoswyd ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd gweithgareddau corfforol a'r pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Yn ogystal â hyn llwyddwyd plentyn A i ddatblygu sgiliau ebychol frasn, dangoswyd hyn gan dal offer ysgrifennu yn effeithiol gan ddefnyddio'r gaffael trybedd. Soniwyd gan Lywodraeth Cymru (2017) mae defnyddio'r gaffael yma yn helpu'r weithred gorfforol o ysgrifennu dod yn awtomatig. Yn ogystal â hyn mae datblygu a meistroli'r gaffael yna cefnogi disgyblion i ganolbwyntio ar beth maent yn ysgrifennu nid ar sut maent yn ysgrifennu.

Camau Nesaf.

Soniwyd yn rhan yma'r traethawd y camau nesaf i blentyn A i ddatblygu ym mhellach. Fel y dywedwyd uchod mae plentyn A yn dangos diffyg dealltwriaeth yn cymryd tro wrth gynnal trafodaethau. Er mwyn datblygu hyn meddylwyd ychwanegu sesiynau darllen yn ystod trefn y dydd yn ddyddiol. Dangoswyd ymchwil gan Brock a Rankin (2008) mae cynnal sesiynau darllen ar y cyd yn gallu cyflwyno amrywiaeth o lenyddiaeth gyfoethog i ddysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r athro modelu darllen, cyfle i'r dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o batrymau iaith ac mae'r sesiynau yma yn dueddol o ffocysu ar un plentyn ond ar yr un pryd mae pawb sy'n darllen ar y cyd yn elwa o'r profiadau. Ymchwiliwyd yn ddyfnach a ddarganfuwyd fod Estyn (2017) yn nodi nid oes digon o sesiynau darllen ar y cyd yn cael ei chynnal mewn ysgolion. Nodwyd nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygiad darllen plant. Dadlau Estyn (dyddiad) bod addysgu disgyblion i ddarllen yn gywir ac yn rhugl a hyder yn hanfodol o ran helpu i lwyddo yn yr ysgol. Trafodwyd er mwyn fod yn llwyddiannus, mae cyfrifoldebau gan yr athrawon i fonitro eu cynnydd a'u chyflawniadau'n ofalus.

Wrth ddarllen yn unigolyn gyda phlentyn A mae'n dangos diddordeb yn darllen ac yn darllen yn annibynnol gan ddangos dealltwriaeth wrth wneud. Ar y llaw arall gwelwyd yn atodiad 7, wedi dyddio 9fed o Fai 2019 mae angen i blentyn A datblygu rhuglder wrth ddarllen. Soniwyd gan Reading Rockets (2019) dangoswyd ymchwil fod darllen yn uchel gyda chefnogaeth yn helpu i ddatblygu rhuglder wrth ddarllen. Awrgrymwyd gan Reading Rockets (2019) mae llyfrau sydd o ddiddordeb i'r plant yn fwy tebygol o ennyn diddordeb ac yn elwa mwyaf o'r darllen. Ychwanegwyd llyfrau i'r cornel darllen y dosbarth sydd yn seiliedig a'n thema ar hyn o bryd lle mae plentyn A wedi dangos diddordeb a gwelwyd ei bod yn treulio amser yn darllen yn unigol yn ystod sesiynau ardaloedd. Soniwyd Reading Rockets (2019) fod yn bwysig i gofio, nid yw darllen annibynnol yn cymryd lle darllen yn uniongyrchol gydag oedolion. Soniwyd uchod bod plentyn A yn cynnwys priflythrennau yng nghanol frawddegau, bydd cynnal

sesiynau darllen ar y cyd yn darparu cyfleoedd i blentyn A deall strwythurau gramadegol, hynny yw, pryd i ddefnyddio prif lythren, atalnod llawn, atalnod ac yn y blaen. Nodwyd gan Estyn (2017) mae llythrennedd yn rhyngweithio ac mae pob elfen y llythrennedd yn gweithio gyda'i gilydd i gryfhau llythrennedd cyfannol plentyn. Fel athrawes rydw i'n meddwl bydd y ffordd ymlaen yma yn fuddiol i blentyn A oherwydd mae ganddi ddiddordeb yn darllen felly mae cynnal gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddi yn arwain at gyraeddiadau mwy effeithiol. Fel athrawes newydd, byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a chasglwyd i sicrhau fy mod yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad llythrennedd plant yn draws cwricwlaid.

Er mwyn datblygu sgiliau mathemategol yn darllen ac ysgrifennu amser, byddaf yn defnyddio adnoddau i gefnogi dysgu'r plentyn. Sylweddolwyd wrth weithio gyda phlentyn A ei bod yn ddysgwyr cinesthetig, hynny yw, mae'n dysgu trwy wneud gweithgareddau'n ymarferol. Er mwyn cefnogi math y dysgwr penderfynwyd defnyddio adnoddau a chynnal mwy o sesiynau ymarferol iddi er mwyn ysgogi. Soniwyd gan The guardian (2013) mae plant yn ymateb yn fwy effeithiol os ydynt mewn cyswllt gyda'r hyn maent yn dysgu. Dangoswyd hefyd fod cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn codi hyder disgyblion tuag at y pwnc maent yn addysgu ac mae'n bosib integreiddio'r pob pwnc i fod yn ymarferol. Cytunwyd gan University of Sussex (2007) wrth esbonio fod dulliau rhyngweithiol ac ymarferol yn boblogaeth gyda dysgwyr a hefyd yn cael ei defnyddio gan athrawon i ysgogi dysgu. Dadlau gan Education Enowment Foundation (2018) gan nodi nid oes llawer o dystiolaeth fod arddulliau addysgu yn gwella dealltwriaeth disgyblion.

However, studies where teaching activities are targeted towards particular learners based on an identified learning 'style' have not convincingly shown any major benefit, particularly for low attaining pupils. Impacts recorded are generally low or negative.

Education Enowment Foundation (2018)

Wrth ystyried y safbwyntiau yma, mae angen sicrhau fy mod yn ystyried yr hyn byddent yn gwneud yn ystod y sesiynau ymarferol ac yna paratoi cwestiynau, adnoddau a gweithgareddau er mwyn ysgogi dysgu'r dysgwyr. Fel athrawes, rydw i wedi defnyddio adnoddau i gefnogi addysgu yn flaenorol ac rydw i wedi gweld ei bod yn gweithio os ydynt yn

defnyddio'n gywir. Mae defnyddio adnoddau i gefnogi addysg blant yn helpu anelu at fwriad Donaldson am greu dysgwyr deallusol annibynnol, oherwydd nid ydynt yn gofyn i mi yn uniongyrchol am yr ateb, maent yn defnyddio'r adnoddau am gefnogaeth ac yn darganfod yr ateb heb gymorth oedolyn. Llwyddodd plentyn A i gwblhau tasg arbrofi gyda chlociau ymarferol, fe lwyddodd i drafod nodweddion y cloc, y munudau, yr oriau a llwyddodd i drosi'r amser yn effeithio gan ddefnyddio'r clociau analog fel cymorth.

Er mwyn sicrhau fod gan blentyn A iechyd a lles cadarnhaol yn gyson, byddaf yn penodi cydlynnydd iechyd a lles. Bydd y cydlynnydd yma yn gyfrifol am baratoi sesiynau lles yn cynnwys, Yoga i ymlacio'r ymennydd. Soniwyd gan Yoga in Schools Community Interest Company (dim dyddiad) mae cynnal sesiynau yoga yn ystod diwrnodau ysgol yn addysgu disgyblion ar sut i reoli teimladau a sut mae ymarferion anadlu yn gallu cadw pobl yn iach. Fel y soniwyd uchod, dywedwyd plentyn A ei bod yn poeni am gymryd rhan mewn mabolgampau - Dywedwyd gan Yoga in Schools Community Interest Company (dim dyddiad) mae cynnal yoga yn ysgolion yn ffordd o gynnwys disgyblion sydd ddim yn hoff iawn o sesiynau addysgu gorfforol. Fel athrawes bydd y ffordd ymlaen yma yn fuddiol i blentyn A oherwydd mae'n aelod o dîm gymnasteg tu allan i'r ysgol a fydd yn mwynhau'r sesiynau. Gwelwyd yn flaenorol sesiynau Yoga cael ei chynnal yn ysgol a gwelwyd ei bod yn cael effeithiau cadarnhaol ar fwyaf y disgyblion. Mae angen sicrhau fod yr oedolion a fydd yn cynnal y sesiynau yn cael hyfforddiant. Gelwyd fod y sesiynau yn effeithiol gan gynnal tua thair gwaith y dydd; yn y bore, ar ôl cinio ac ar ddiwedd y dydd. Mae'r sesiynau wedi'i gynllunio er mwyn fod yn addas ar gyfer amser y dydd. Bydd cyflwyno'r ymyraethau yma yn gobeithio helpu cynnydd plentyn A er mwyn iddi gyrraedd D5 ar erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Casgliadau.

Cryfderau cwblhau'r ymchwil yw gwella fy nealltwriaeth o sut i dracio cynnydd disgyblion yn barod i fy ngyrfa fel athrawes ysgol gynradd. Rydw i wedi datblygu fy ymwybyddiaeth o sut i dracio cynnydd cyfannol plentyn yn hytrach nag edrych ar bob agwedd yn unigol.

Cyfngiadau casglu'r data yn y Cyfnod Sylfaen yw ceisio cwblhau amrywiaeth o dasgau gyda'r plentyn targed ond nid ydwyf yn gweithio gyda'r plentyn hynny pob tro. Mae'r ysgol yn gweithio gyda grwpiau targed ac o ganlyniad nid ydwyf yn gweithio gyda'r plentyn pob dydd. Felly os byddaf yn cael y cyfle i gasglu data ar blentyn eto bydd yn syniad cael mwy o amser i

wneud hyn er mwyn casglu mwy o ddata i werthuso arno er mwyn derbyn canlyniadau gwell. Byddaf yn parhau gyda fy mhrofiad dysgu gan sicrhau fy mod yn meddwl ymlaen llaw a'r cam nesaf i'r unigolion yn y dosbarth. Wrth wneud hyn, byddaf yn sicrhau fod pob dysgwyr yn elwa o'r sesiynau a chynlluniwyd iddynt a byddaf yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cael lleisiau wedi'i chlywed gan gynllunio sesiynau sydd â diddordeb iddynt. Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a chasglwyd yn wrth gwblhau'r aseiniad yma i geisio darparu ymyrraethau effeithiol i'r disgyblion sydd yn fy nosbarth nawr ac ar gyfer y dyfodol, er mwyn llwyddo i greu dysgwyr annibynnol.

Atodiad 1.

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

AIMEE McANDREW

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

YSGOL GYMRAEG LLANGENNECH

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ANGHARAD MORGAN

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

suogsl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Atodiad 2.



Annwyl Riant /Warcheidwad,

Mae ysgol eich plentyn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon.

Gofynnwyd i'r darpar-athro yn nosbarth eich plentyn ddadansoddi dysgu'r plant fel y gall ef / hi ystyried sut y byddai ef /hi yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt wneud cynnydd. Fel rhan o hyn, bydd darpar-athrawon yn arsylwi ar ddysgu'r plant ac yn gofyn pa bethau a mannau yn yr ysgol sy'n helpu plant ddysgu. Mae'r dasg wedi'i chynllunio i lywio ymarfer y myfyrwyr a chefnogi dysgu plant.

Byddai unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn parhau'n gyfrinachol drwy gydol y prosiect, a byddai'r ysgol a'r plant yn parhau i fod yn ddienw yn y gwaith a gynhyrchir. Sicrheir i'r wybodaeth a'r canlyniadau a gasglwyd fod yn unol â chanllawiau moesegol y Brifysgol. Os, ar unrhyw adeg, nid yw eich plentyn am rannu syniadau, ni fyddai'n ofynnol iddo/iddi wneud hynny.

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gyfrannu at y prosiect, cwblhewch y ffurflen ganiatâd rhieni isod os gwelwch yn dda, a'i ddychwelwch yn uniongyrchol i'r ysgol cyn gynted â phosib. Os oes gennych ddiddordeb yng nghanlyniad y prosiect hwn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddfa Bartneriaeth y Brifysgol - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yn gywir,

Mathew Jones

Cyd-lynnydd Modwl – Datyblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion

Fel Rhiant / Gwarcheidwad, rhoddaf ganiatâd / ni roddaf ganiatâd (dileu) i

ect hwn.

Llofnodwyd X M. Jones (Rhiant/ Gwarcheidwad).

Dyddiad 24/5/19

Atodiad 3.

Dydd Mercher mai 15ed




Nod y wers....


Dweud yr amser ar gloc analog.

Meini Prawf Llwyddiant


- Adnabod o'r gloch a hanner awr wedi, chwarter i a chwarter wedi ar gloc analog. ✓
- Adnabod bod y bys mawr yn cynrychioli'r munudau a'r bys bach yn cynrychioli'r oriau. ✓
- Yn deall bod bysedd cloc yn troi'n glocwedd. ✓




11 o'clock ✓




hanner awr wedi 4 ✓




chwarter wedi 3 ✓




Chwarter i 1




9 o'gloch



hanner awr wedi 3




Chwarter wedi 7




Chwarter i 4

Tasg ymestynol:



Chwarter i 10



Chwarter wedi 3



Atodiad 4.












Atodiad 5.

Nod y wers....
Trosi amser o gloc analog i gloc digidol.
Meini Prawf Llwyddiant

- Adnabod bod 60munud mewn awr. ✓
- Adnabod bod pob munud ar gloc analog yn cynrychioli 5 munud ✓
- Gallu defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol i drosi amser o gloc analog i gloc digidol. ✓

Faint o'r gloch yw hi?

Ysgrifennwch ar y llinell yr amser sy'n cael ei ddangos ar bob cloc mewn ffurf ddigidol.

 3 : 00	 4 : 30	 2 : 15
 10 : 30	 7 : 00	 7 : 45
 12 : 30	 8 : 45	 3 : 30


Atodiad 6.

	Yn gyn tas Llenwch hanner Pot blodau gyda Pŵlidd.
Nesaf Rhwch y hadau yn y pot.	Ughwanegwch y Pŵlidd yn y Pot.
	Nesaf allwyswch dŵr af y Pŵlidd. Nawr Rhwch y Pot yn y haul. Dyffiwch eich hadau yn awl. Bydd angen: hadau, Pŵlidd / Pot / dŵr /

Atodiad 7.

Arbrawf Plannu Hadau

Arbrawf 1



Rhagfynegiad

Sut fydd y planhigyn yn tyfu?

Rydwn i'n

Rhagfynegi


bydd y planhigyn

ddim yn tyfu

achos mae dŵr

hau.

Arbrawf 2



Rhagfynegiad

Sut fydd y planhigyn yn tyfu?

Rydwn i'n

Rhagfynegi

bydd y planhigyn

yn tyfu achos

mae hawl d

glaw.

Arbrawf 3



Rhagfynegiad

Sut fydd y planhigyn yn tyfu?

Rydwn i'n

Rhagfynegi

ddim yn

tyfu achos

mae dŵr

dwl.

Arbrawf 4



Rhagfynegiad

Sut fydd y planhigyn yn tyfu?

Rydwn i'n

Rhagfynegi

bydd e ddim

yn tyfu achos

mae dŵr

hau.

tyfi
dym
mae ddim →

Cofnod Darllen

Enw'

Oedran darllen (os ydych yn ei wybod):

Dyddiad	Teitl y llyfr a rhifau tudalennau a ddarllenwyd	Math o lyfr e.e. ffuglen, drama, barddoniaeth	Sylwadau (e.e. darllen er mwynhad, adnabod geiriau, dealltwriaeth o'r testun, dehongliad, ystod darllen)
6/5/19	Hefrennydd.		Crann darllen yn amiblygu! gan ddargos dealltwriaeth i'r darllen. Argraff datblygu rhuglder.
17/5/19	Y Bad Achrub.		darllenied era heddiw, angen mwyd dros adarannau o'r lyfr. fal ati.
24/5/19	Llyfr yn llwyd.		Ila iauon dara! Nedi mwydau darllen y gyfres yma!

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar ôl darllen polisi darllen yr ysgol, os ydych chi gael

Rhestr Cyfeirnod.

BERA. (2018). [Ethical Guidelines for Educational Research] Ar gael o: <https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research-4thEdn-2018.pdf?noredirect=1> [Darllenwyd 5ed o Fai 2019].

Black, P a Wiliam, D. (1998). *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. London: GL Assessment.

Brock, A a Rankin, C (2008). *Communication Language and Literacy Birth to Five*. London: Sage Publications.

Burke, A. (2011). 'Group Work: How to Use Groups Effectively' Ar gael o: https://uncw.edu/jet/articles/vol11_2/burke.pdf [Darllenwyd 28ain o Fai 2019].

CCUHP. (2018). [CCUHP – Hawliau Plant]. Available at: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/> [Darllenwyd 5ed o Fai 2019].

Department for Education (2018) Schools, pupils and their characteristics: January 2018. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/719226/Schools_Pupils_and_their_Characteristics_2018_Main_Text.pdf [Darllenwyd 7fed o Fai 2019].

Department for Education. (2010) 'Listening to children's perspectives: improving the quality of provision in early years settings' Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183412/DfE-RR239b_report.pdf [Darllenwyd: 15fed o Fai 2019].

Donaldson, G. (2018) [Dyfodol Llwyddiannus] Ar gael o: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Darllenwyd ar 10fed o Fai 2019].

Education Endowment Foundation, (2018). 'Teaching and Learning Toolkit.' Ar gael o: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Toolkit/complete/EEF-Teaching-Learning-Toolkit-October-2018.pdf> [Darllenwyd 20fed Mai 2019].

Erw. (2019) 'Curriculum for Wales' Ar gael o: <https://www.erw.wales/schools/teaching-and-learning/curriculum-for-wales/> [Darllenwyd 21ain o Fai 2019].

Estyn. (2009) 'Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu ymhlith disgyblion rhwng pump a saith oed.' Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Arfer%20orau%20mewn%20darllen%20ac%20ymhlith%20ysgrifennu%20disgyblion%20rhwng%20pump%20a%20saith%20oed%20-%20Mawrth%202009.pdf> [Darllenwyd: 10fed o Fai 2019].

Estyn. (2017). 'Arweiniad atodol: Arolygu llythrennedd mewn ysgolion.' Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/NIA%20Supplementary%20guidance%20-%20literacy%20cy.pdf> [Darllenwyd: 20fed o Fai 2019].

Hobart, C a Frankel J. *A Practical Guide to Child Observation and Assessment*. United Kingdom: Stanley Thornes Ltd.

Llywodraeth Cymru, (dim dyddiad) 'Ysgol Gymraeg Llangennech'. Ar gael o: <http://mylocalschool.wales.gov.uk/School/6692396?lang=en> [Darllenwyd: 20fed o Fai 2019].

Llywodraeth Cymru. (2017) 'Foundation Phase Profile Handbook' Ar gael o: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/foundation-phase-profile-handbook-revised-september-2017.pdf> [Darllenwyd 20fed o Fai 2019].

Mukherji, P. a Albon, D. (2015) *Research Methods in Early Childhood: An Introductory Guide*. London, SAGE Publications.

Nuffield Foundation. (2019). 'Teaching and Learning using Practical Work.' Ar gael o: <https://www.nuffieldfoundation.org/practical-work-learning/teaching-and-learning-using-practical-work> [Darllenwyd: 15fed o Fai 2019].

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. (2018) 'Research Ethics and Integrity Codes of Practice' Ar gael o: <https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/research/research-ethics-integrity-code-practice.pdf> [Darllenwyd 5ed o Fai 2019].

Reading Rockets. (2019). 'Developing Fluent Readers.' Ar gael o: <http://www.readingrockets.org/article/developing-fluent-readers> [Darllenwyd 17eg o Fai 2019].

The Guardian. (2013). 'Learning by doing: why we've embraced a practical primary curriculum' Ar gael o: <https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2013/feb/26/practical-primary-curriculum-learning-by-doing> [Darllenwyd 28ain o Fai 2019].

University of Sussex. (2007). 'Effective Teaching and Learning for {upils in Low Attaining Groups.' Ar gael o: <https://dera.ioe.ac.uk/6622/1/DCSF-RR011.pdf> [Darllenwyd 20fed o Fai 2019].

University of York. (2009) 'Analysing practical activities to assess and improve effectiveness' Ar gael o: <https://www.rsc.org/cpd/teachers/content/filerepository/frg/pdf/ResearchbyMillar.pdf> [Darllenwyd 21ain o Fai 2019].

Weeden, P, Winter, J a Broadfoot, P. (2002). *Assessment: What's In It For Schools?*. Canada: Routledge Falmer.

Yoga in schools. (dim dyddiad). 'Yoga in Schools' Ar gael o: <https://www.yoga-in-schools.co.uk> [Darllenwyd 28ain o Fai 2019].